



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Brechlyn Tetanws (Revaxis)- Cyngor

Beth yw tetanws?

Mae tetanws yn glefyd poenus sy'n effeithio ar y nerfau ac yn achosi anystwythder yn y cyhyrau a all achosi problemau anadlu. Gellir dod o hyd i facteria tetanws yn aml mewn pridd a thail anifeiliaid fel ceffylau a gwartheg. Gall fynd i mewn i'r corff trwy friwiau agored, llosgiadau, rhwygiadau yn y croen, o frathiadau anifeiliaid, anafiadau i'r llygaid, tyllu'r corff, tatws a chwistrellu cyffuriau halogedig. Ni ellir lleadaenu tetanws o berson i berson.

Gall bacteria tetanws oroesi am amser hir y tu allan i'r corff ac os ydynt yn mynd i mewn i'r corff trwy glwyf gallant luosi'n gyflym a rhyddhau tocsin sy'n effeithio ar y nerfau, gan achosi symptomau fel anystwythder cyhyrau a sbasmau.

Symptomau tetanws

Mae symptomau tetanws fel arfer yn dechrau tua 4 i 21 diwrnod ar ôl yr haint. Ar gyfartaledd, maent yn dechrau ar ôl tua 10 diwrnod.

Mae prif symptomau tetanws yn cynnwys anystwythder yng nghyhyrau eich gên (genglo), a gall hyn ei gwneud yn anodd agor eich ceg, sbasmau poenus yn y cyhyrau a all ei gwneud yn anodd anadlu a llyncu, tymheredd uchel, chwysu, a churiad calon cyflym.

Pryd, sut a pham y rhoddir y brechlyn?

Rydyn ni'n rhoi Revaxis, brechlyn sy'n helpu i roi hwb o ran amddiffyniad rhag 3 chlefyd gwahanol - Tetanws, Difftheria a Polio, i gleifion sydd â thoriad neu losgiad nodweddiadol nad ydynt wedi cael eu cwrs llawn neu frechiadau atgyfnerthu. Fel arfer caiff ei roi fel pigiad yn rhan uchaf y fraich. Mae'n rhoi hwb i'r amddiffyniad a roddwyd i chi fel plentyn rhag tetanws, difftheria a pholio.

Mae angen pum pigiad ar gyfer cwrs llawn y brechiad, ac fe'u rhoddir fel arfer yn unol â'r amserlen ganlynol:

- Rhoddir y tri dos cyntaf fel rhan o'r brechlyn 6-mewn-1 yn 8, 12 ac 16 wythnos ar gyfer pob babi.
- Rhoddir dos atgyfnerthu fel rhan o'r pigiad atgyfnerthu cyn-ysgol 4-mewn-1 yn 3 oed 4 mis oed.
- Rhoddir hwb terfynol fel rhan o'r rrhaglen atgyfnerthu 3-mewn-1 i bobl ifanc yn eu harddegau yn 14 oed.

Dylai'r cwrs hwn o bum pigiad roi amddiffyniad hirdymor rhag tetanws.

Efallai y byddwch hefyd wedi cael presgripsiwn am wrthfotigau i'w cymryd a/neu wedi cael imiwnoglobulin tetanws, sef meddyginiaeth sy'n cynnwys gwrthgyrff. Mae'r imiwnoglobulin yn rhoi amddiffyniad, uniongyrchol ond tymor byr, rhag tetanws.

A oes unrhyw sgîl-ffeithiau?

Os byddwch yn cael sgîl-ffeithiau, maent yn fwyaf tebygol o ymddangos o fewn 48 awr o roi'r brechlyn. Os oes gennych unrhyw bryder, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu neu'r Adran Achosion Brys

Sgîl-ffeithiau cyffredin ar safle'r pigiad:	Sgîl-ffeithiau posibl eraill
Mae poen, chwyddo a chochni ac weithiau lwmp bach di-boen yn datblygu sydd fel arfer yn diflannu ymhen ychydig wythnosau.	Twymyn, Ffitiau, pendro, adwaith alergaidd, chwarennau wedi chwyddo.

Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn teimlo'n sâl ar ôl yr imiwneiddiad?

Cymerwch Paracetamol - dilynwch y cyfarwyddiadau ar y pecyn/potel. Os oes angen, dylid cymryd ail ddos o Paracetamol bedair i chwe awr yn ddiweddarach. Os yw eich tymheredd yn dal yn uchel ar ôl yr ail ddos, siaradwch â meddyg teulu.

A oes angen i mi roi gwybod i'm meddyg teulu fy mod wedi cael y brechlyn?

Oes, ewch â'r llythyr a roddwyd i chi at eich meddyg teulu cyn gynted â phosibl. Byddant yn gallu diweddarau eich cofnodion imiwneiddio, ac os oes angen, cwblhau eich imiwneiddiad. Os nad ydych wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu, mae'n bwysig eich bod yn gwneud hynny nawr.

Cofiwch os gwelwch yn dda:

Er fod hyn yn brin iawn, gall tetanws fod yn ddifrifol iawn. Mae'n bwysig iawn eich bod yn mynd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor (Uned Nid Mân Anafiadau) ar unwaith os byddwch yn datblygu unrhyw un o'r symptomau canlynol:

<ul style="list-style-type: none">• Poen ac anystwythder o amgylch y clwyf• Anystwythder yn eich gêd• Sbasmau yn y cyhyrau	<ul style="list-style-type: none">• Anhawster llyncu• Anhawster anadlu• Twymyn a Chwysu
--	---

Pigiad tetanws ar gyfer teithio

Gan fod tetanws i'w gael ledled y byd, dylech sicrhau eich bod wedi'ch brechu'n llawn cyn teithio dramor. Cysylltwch â'ch meddygfa am gyngor cyn teithio dramor, os nad ydych wedi cael eich brechu'n llawn yn erbyn tetanws, neu os ydych chi'n mynd i ardal sydd ag ychydig iawn o gyfleusterau meddygol a bod eich dos diwethaf o'r brechlyn fwy na 10 mlynedd yn ôl. Byddwch yn cael cynnig y pigiad atgyfnerthu 3-mewn-1 ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, sydd hefyd yn amddiffyn rhag difftheria a pholio.

Cyfeiriadau: Tetanws - GIG

**Os ydych yn pryderu o gwbl am eich anaf, cysylltwch â'r
Adran Achosion Brys berthnasol: Ysbyty Athrofaol y Faenor: 01633 493287
Neu Uned Mân Anafiadau (MIU):
Ysbyty Brenhinol Gwent: 01633 234056
Ysbyty Neuadd Nevill: 01873 732073
Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) 01443 802353
Ysbyty Aneurin Bevan (YAB): 01495 363318**